


PYMTHEG O APIAU Y DYLAI RHIENI WYBOD AMDANYNT



ASK.FM – ap sy'n adnabyddus am seiber-fwlio. Mae'r defnyddwyr yn cael eu hannog i ganiatáu i bobl anhysbys ofyn cwestiynau iddyn nhw.



CALCULATOR% – un o nifer o apiau cyfrinachol a ddefnyddir i guddio lluniau, fideos, ffeiliau a hanes pori.



HOT OR NOT – ap sy'n annog pobl i sgorio'ch proffil, edrych ar bobl yn eu hardal, a sgwrsio gyda phobl ddeieithr. Nod yr ap yw cyfarfod â phobl.



BUMBLE – mae'n debyg i ap poblogaidd 'Tinder' a ddefnyddir i chwilio am gariad ond mae hwn yn gofyn i ferched wneud y cyswllt cyntaf. Gwyddom fod plant yn defnyddio Bumble i greu cyfrifon ffug a chelu eu hoedran go iawn.



SKOUT – ap a gwefan chwilio am gariad sy'n seiliedig ar leoliad. Er nad yw defnyddwyr dan 17 oed yn gallu rhannu lluniau preifat, gall plant greu cyfrif yn hawdd trwy gelu eu hoedran.




KIK. – ap sy'n caniatáu i unrhyw un gysylltu ac anfon neges uniongyrchol at eich plentyn. Gall plant osgoi nodweddion negeseuon testun traddodiadol. Mae Kik yn rhoi mynediad digyfngiad i ddefnyddwyr i unrhyw un yn unrhyw le ar unrhyw amser.



GRINDR – ap chwilio am gariad sydd wedi'i anelu at bobl hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Gall defnyddwyr yr ap ddeuwys sgwrsio, rhannu lluniau a chyfarfod yn seiliedig ar leoliad GPS eu ffonau clyfar.



SNAPCHAT – un o'r apiau mwyaf poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod yr ap yn dweud y gall defnyddwyr dynnu llun/fideo ac yna y bydd yn diflannu, mae nodweddion newydd gan gynnwys 'storïau' yn caniatáu i ddefnyddwyr weld cynnwys am hyd at 24 awr.




LIVE.ME – ap ffrydio fideos byw sy'n defnyddio technoleg canfod lleoliad i rannu fideos fel bod defnyddwyr yn gallu canfod yn union ble mae'r darlledwyr. Gall plant ennill 'ceiniogau' fel 'tâl' am luniau.



MEET.ME – ap cyfrwng cymdeithasol chwilio am gariad sy'n galluogi defnyddwyr i gysylltu gyda phobl yn seiliedig ar eu hagosrwydd daearyddol. Fel mae'r enw yn awgrymu, mae defnyddwyr yn cael eu hannog i gyfarfod wyneb yn wyneb.



HOLLA – ap sydd wedi cyhoeddi ei hun fel ap sgwrsio fideo 'caethiwus' sy'n galluogi defnyddwyr i gwrdd â phobl o bob rhan o'r byd mewn eiliadau. Dywed adolygwyr eu bod wedi wynebu sarhad hiliol, cynnwys amhriodol a mwy.



BADDOO – ap chwilio am gariad a rhwydweithio cymdeithasol lle gall defnyddwyr sgwrsio, rhannu lluniau a fideos a chysylltu yn seiliedig ar eu lleoliad. Er bod yr ap wedi'i anelu at oedolion yn unig, gwyddom fod pobl ifanc yn eu harddegau yn creu proffiliau.



TIKTOK – ap newydd ar declynnau symudol sy'n boblogaidd ymysg plant er mwyn greu a rhannu fideos byrion. Mae'r rheolaethau preifatrwydd yn gyfyngedig iawn ac mae'r defnyddwyr yn agored i gael eu bwlio a gweld cynnwys amhriodol.



WHATSAPP – ap poblogaidd ar gyfer anfon negeseuon testun, lluniau, gwneud galwadau a chael sgysiaid fideo gyda phobl o bob cwr o'r byd. Mae Whatsapp yn defnyddio cysylltiad rhyngwryd ar ffonau clyfar a chyfrifiaduron.



WHISPER – rhwydwaith cymdeithasol anhysbys sy'n hyrwyddo rhannu cyfrinachau gyda dieithriaid. Mae hefyd yn datgelu lleoliad defnyddwyr er mwyn eu galluogi i gyfarfod.